**Pwyllgor Diwylliant CC 16-02(p.1)**

Dyddiad: 23 Hydref 2002

Amser: 9.00am - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## ADOLYGIAD O’R POLISI AR LEFELAU CYMRYD RHAN MEWN CHWARAEON: CYLCH GORCHWYL A RHAGLEN WAITH DDRAFFT

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cylch gorchwyl drafft (Atodiad A) a'r flaenraglen waith (Atodiad B) ar gyfer yr adolygiad o’r polisi ar lefelau cymryd rhan mewn chwaraeon ac i gytuno arnynt. Gwahoddir y Pwyllgor hefyd i nodi'r papur cefndir (Atodiad C) sy'n rhoi amlinelliad o faterion a chwestiynau posibl yr hoffai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod yr adolygiad. Gellir trefnu bod aelodau'n derbyn gwybodaeth fanylach ar unrhyw un o'r materion y cyfeirir atynt yn y nodyn cefndir pe baent yn dymuno hyn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Hydref 2002**

**Atodiad A**

## ADOLYGIAD O’R POLISI AR LEFELAU CYMRYD RHAN MEWN CHWARAEON - CYLCH GORCHWYL DRAFFT

I gynnal adolygiad o lefelau cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru a sut y gellir

cynyddu'r lefelau hynny, gan gynnwys edrych ar y pwyntiau canlynol:

**Rhwystrau i Fynediad**

- Y rhwystrau sy'n achosi lefelau is o gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru o'u cymharu â gwledydd eraill

- Cyfleoedd i fenywod a merched gan gynnwys y sector gwirfoddol

- Cyfleoedd i bobl hn, pobl anabl a grwpiau lleiafrifoedd ethnig

**Rhwydwaith a Chyfleusterau**

- Rôl awdurdodau lleol, a rhoi ystyriaeth yn benodol i adroddiad y Comisiwn Archwilio "*Sport and Recreation: Learning from audit, inspection and research*"

- Effaith prif ddigwyddiadau ar lefelau cymryd rhan. Y Ddarpariaeth ar gyfer prif ddigwyddiadau chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys y gwersi sydd i'w dysgu o Gemau'r Gymanwlad yn 2002.

**Chwaraeon Elît**

- Effaith chwaraeon elît ar lefelau cymryd rhan. A ellir gwella'r broses o adnabod, datblygu a chynnal athletwyr elît boed yn unigolion neu'n dimoedd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Hydref 2002**

**Atodiad B**

**ADOLYGIAD O’R POLISI AR LEFELAU CYMRYD RHAN MEWN CHWARAEON - AMLINELLIAD O'R FLAENRAGLEN WAITH**

**<u>23 Hydref 2002</u>**

**Rhwydwaith a chyfleusterau**

- Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar chwaraeon a hamdden. Cyflwyniad.
- Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**<u>6 Tachwedd 2002</u>**

Cyflwyniad gan y Cyngor Chwaraeon.

[*Wellbeing in Wales* - i'w gadarnhau]

[*Healthy Active Lifestyles* - i'w gadarnhau]

**<u>20 Tachwedd 2002</u>**

**Rhwystrau a mynediad**

- Menywod, merched a'r sector gwirfoddol
- Cyfleoedd i bobl hn, yr anabl a lleiafrifoedd ethnig

**28 Tachwedd 2002**

- Rhwystrau a mynediad - parhad (ee Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion)
- Gemau'r Gymanwlad a phrif ddigwyddiadau
- Chwaraeon Elît

**4 Rhagfyr 2002**

- Adolygu'r darganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- Adroddiad Uned Strategaeth Swyddfa'r Cabinet ar Bolisi Chwaraeon - i'w gadarnhau

**18 Rhagfyr 2002**

- Lefelau cymryd rhan a strategaethau mewn gwledydd eraill

**ATODIAD C**

**Papur Cefndir**

## ADOLYGIAD POLISI'R PWYLLGOR DIWYLLIANT O CHWARAEON

**1**: Cefndir.

Fe fydd y Pwyllgor Diwylliant yn cynnal Adolygiad o Chwaraeon ac mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi gofyn i'r Uned Bolisi Chwaraeon helpu drwy awgrymu'r canlynol:

- Cylch gorchwyl
- Pwyntiau i'w trafod
- Cwestiynau ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig

Mae'n amlwg mai mater i'r Pwyllgor fydd penderfynu a ddylai'r canlynol fod yn rhan o'u hystyriaethau, eu cynlluniau a'u hamserlen.

**2:** Cylch Gorchwyl.

- Mwy o bobl i gymryd rhan

Mynd i'r afael â lefelau isel o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol o'u cymharu â'r cenhedloedd mwyaf llwyddiannus fydd cyfrifoldeb cyntaf y llywodraeth. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai dim ond 46% o'r boblogaeth (DU) sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon fwy na 12 gwaith y flwyddyn o'i gymharu ag 80% yn y Ffindir. Er gall fod gan chwaraeon a gweithgaredd corfforol ystod eang o fanteision cymdeithasol, gwella iechyd yw'r rôl fwyaf amlwg o safbwynt llywodraeth.

Cyfrifir y byddai cynnydd o 10% mewn gweithgaredd ymhlith oedolion yn Lloegr yn cynhyrchu o leiaf £500m y flwyddyn i'r wlad. Mae hyn yn gyfystyr â £25m y flwyddyn yng Nghymru. Dylai'r Adolygiad geisio gwell dealltwriaeth o sut y mae ymyrraeth gan lywodraeth wedi llwyddo mewn mannau eraill ac amlinellu ffyrdd y gall Cymru ei hun ddod o hyd i'r atebion gorau yn y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir a'u rhoi ar waith.

Bydd yr Adolygiad yn benodol yn asesu ffyrdd o wasanaethu’n well grwpiau targed megis yr ifanc, menywod a merched, cymunedau difreintiedig, yr anabl a lleiafrifoedd ethnig. Mecanweithiau galluogi a chael gwared ar y rhwystrau fydd prif fyrdwn y drafodaeth hon.

- Chwaraeon Elît

Mae llwyddiant ar y llwyfan ryngwladol yn gallu ‘codi calon’ cenedl tra'n gwella enw a phroffil Cymru ledled y byd, sy’n bwysig iawn. Bydd yr Adolygiad yn ystyried ffyrdd o wella'r broses o

adnabod, datblygu a chynnal athletwyr elît boed yn unigolion neu'n dimoedd. Hwyrach y bydd yr Adolygiad hefyd am ystyried a ddylid buddsoddi arian cyhoeddus i geisio ennill medalau yn y campau llai poglogaidd yn hytrach na'r campau sy’n golygu fwyaf i bobl Cymru. I ba raddau y dylid canolbwyntio'r sylw (a'r cyllid) ac i ba raddau dylid gwneud hynny?

- Prif Ddigwyddiadau

Yng ngoleuni cais llwyddiannus Cymru i gynnal y Cwpan Ryder a chyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog y dylai Cymru ystyried gwneud cais am gynnal Gemau'r Gymanwlad, bydd yr Adolygiad yn ystyried:

- Sylfaen dull strategol o lwyfannu prif ddigwyddiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

- Rôl Cyngor Cymru Gemau'r Gymanwlad yn dilyn y Gemau diweddar ym Manceinion.

**3:** Pwyntiau Trafod/Cwestiynau ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig

Yn naturiol mae ystod o bwyntiau trafod yn deillio o'r cylch gorchwyl er enghraifft y pwyntiau a'r cwestiynau atodol canlynol:

- Sut y gellir gwella’r rhyngwynebu rhwng budd-ddeiliaid allweddol mewn chwaraeon yng Nghymru ar draws y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol?

- Pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer partneriaethau gwell a newydd rhwng budd-ddeiliaid?

- Union rôl yr Awdurdodau Lleol yn y dyfodol gan gofio mai'r Llywodraeth sy'n cyfrannu fwyaf at gyllido chwaraeon (ffigurau Lloegr), gan ddarparu 57% o'r cyfanswm gyda 96% o hwnnw’n cael ei ddosrannu drwy awdurdodau lleol ac awdurdodau addysg lleol?

- Beth yw effaith y sector iechyd a ffitrwydd preifat yng Nghymru a ble a sut y gallai'r twf ynddo gymryd lle, gwella neu ategu’r ddarpariaeth gyhoeddus .

**Cangen Polisi Chwaraeon Hydref 2002**